

Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad...

Cyn y Gwener y Groglith gyntaf lfarodd Iesu wrth ei ddisgyblion eiriau rhyfedd ac anodd eu deall. Meddai, "Y mae'n fuddiol i chwi fy mod yn mynd ymaith" (Ioan 16:7). Efallai i'r disgyblion feddwl i hynny ddigwydd pan gafodd eu Harglwydd ei ladd a'i roi mewn bedd. Ond gwelsant ef yn fyw dros gyfnod o bron i saith wythnos.

Y "mynd ymaith" hwnnw a ddisgrifir yma gan Luc oedd Iesu'n gadael ei ddisgyblion, yn diflannu o'u golwg. Ychydig o sylw a roddwyd gennym fel Anghydfurfwr, i'r Esgyniad, neu'r Dyrchafael, – cynhelid ambell i gwrdd pregethu ond prin iawn oeddent. Efallai erbyn heddiw rydym yn rhoi ychydig mwy o sylw i'r wyl, ond nid gymaint ag a roddwn i'r Nadolig, yr Wythnos Fawr a'r Pentecost.

Mae'n amlwg fod Luc yn ystyried y digwyddiad hwn yn un tra phwysig, oherwydd cyfeiria ato ddwywaith. Yn y cyfeiriad cyntaf, ar ddiwedd ei Efengyl, darlunnir Duw yn coronni gweinidogaeth Iesu yn y cnawd. Ac yna, ar ddechrau ei ail gyfrol, rhydd Luc esboniad ar y weithred, neu'r act, o roi cychwyn i'r Eglwys Gristnogol. Gyda'r ddau gofnod dengys Luc Iesu Grist yn orchfygw'r ar angau, yn rheolwr ar fywyd, yn arweinydd i'w bobl, ac yn un sy'n cadarnhau gwaith ei bobl.

Daeth yr Esgyniad yn ffaith hanfodol yng nghredo a phrofiad yr Eglwys. Er mor bwysig oedd yr Atgyfodiad mae'n debyg mai ffaith yr Esgyniad a roddodd wir ysbrydoliaeth i'r Eglwys Fore. Dyna oedd pwyslais mawr Simon Pedr ar ddydd y Pentecost,

"Yr Iesu hwn a gyfododd Duw, rhywbeth yr ydym yn dystion ohono. Felly, wedi iddo gael ei ddyrchafu i ddeheulaw Duw, a derbyn gan y Tad ei addewid am yr Ysbryd Glân, fe dywalltodd y peth hwn yr ydych yn ei weld a'i glywed." (Actau 2:32,33).

Esgorodd esgyniad Iesu ar ddyfodiad yr Ysbryd Glân. Dyna a olygai pan ddywedodd, "Y mae'n fuddiol i chwi fy mod yn mynd ymaith". Wedi iddo ddychwelyd at ei Dad byddai'r Ysbryd Glân yn cael ei dywallt ar ddisgyblion Iesu, i'w nerthu i fynd allan i wynebu'r gelynion ac i gyhoeddi Efengyl Iesu Grist i'r byd cyfan.

Esgyniad Iesu oedd pwyslais, os nad grym gweithredol y Methodistaidd cynnar. Mae



Francisco Camilo (1615–1673)

Yr Iesu hwn a gyfododd Duw, rhywbeth yr ydym yn dystion ohono. Felly, wedi iddo gael ei ddyrchafu i ddeheulaw Duw, a derbyn gan y Tad ei addewid am yr Ysbryd Glân, fe dywalltodd y peth hwn yr ydych yn ei weld a'i glywed.' (Actau 2:32, 33).

Williams, Pantycelyn yn crynhoi hyn pan ddywed –

*Mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad,
ar orsedd fawr y nef;
ac y mae'r cyfan sydd mewn bod
dan ei awdurdod Ef.*

*Fe gryn y ddaear ac uffern fawr
wrth amnaid Tywysog nen;
O'r fath ogoniant sydd i'r Hwn
fu'n dioddef ar y pren.*

A thrachefn Eryron Gwyllt Walia yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg –

*Esgynnodd mewn gogoniant llawn
goruwch y nefoedd fry;
ac yno mae ar sail ei lawn
yn eiriol trosom ni.*

*Pob gallu llawn, drwy'r byd a'r nef,
sydd yn ei law yn awr;
ni rwystra gallu uffern gref
ddibenion Iesu Mawr.*

Ac yn yr ugeinfed ganrif cawn Y Parch John Roberts yn cyfeirio at y Dyrchafael –

*Cofiw'n am addewid Iesu,
adeg ei Dyrchafael ef:
'Byddaf gyda chwi'n wastadol pan
ddaw arnoch nerth o'r nef.'
Daeth ei Ysbryd Glân fel golau
anorchfygol newydd wawr,
gan aeddfedu gwedd y meysydd erbyn
y cynhaeaf mawr.*

O edrych ar hanes yr Eglwys yn gyffredinol gwelwn gyfnodau o lanw a thrai; dyddiau o lawnder a dyddiau o newyn mawr.

Pam y ceir cyfnodau felly?

Nid oherwydd bod Duw weithiau'n frwd ac weithiau fel arall. Nid oherwydd bod Duw'n brin ei adnoddau – mae'r Arglwydd yn rhoi yn ôl ein gallu ni i dderbyn. Mae ganddo gefnwr o adnoddau, ond ddeil ein piser ni ddim mwy na'i lond. Ond tra down a'n piseri fe'u llenwir a bydd digon ar ôl.

Pa bryd y daw adfywiad ysbrydol i Gymru?

Sut y mae'r genhedlaeth sy'n codi, cenhedlaeth sydd ddim yn gwybod mai yn Y Beibl y ceir hanes Y Geni, Y Pasg, a'r Samariad Trugarog, sut ddônt hwy i wybod am anchwiliadwy olud y Crist? Cenhedlaeth ydyw sydd heb glywed am Iesu.

Pan fydd yr aelodau o fewn yr Eglwys yn ddiogon brwd drosti gan fabwysiadu ysbryd Y Dyrchafael unwaith eto. Pan fyddwn ni'n teimlo'n ddigon dwfn â'i chynni ysbrydol.

Pan fyddwn ni yn effro i'w chyflwr, ac yn sefyll ar y tŵr yn gwylio.

Ac yn barod i ddweud, os ga i aralleirio geiriau o broffwydoliaeth Eiseia,

*"Er mwyn Cymru ni thawaf, er
mwyn Cymru ni fyddaf ddistaw, hyd
oni ddisgleiria'i chyfiawnder yn
llachar, a'i hiachawdwriaeth fel fflag
yn llosgi (62:1), i wneud anialwch
Cymru yn Eden, a diffeithwch
Cymru unwaith eto yn ardd yr
Arglwydd"* (51:3).

Trefor Lewis, Bae Colwyn